



## Newyddion UWIC.

Mae gan UWIC Gynorthwydd Cynllunio Teithio newydd.



Menna  
Hawkins

Bydd Menna Hawkins yn delio â materion teithio a chau campws Colchester Avenue, sy'n newyddion gwych i raglen Cynllun Teithio UWIC.



Mae gan gynllun rhannu ceir UWIC 41 grŵp a 187 aelod ac maent am geisio dyblu hyn dros y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn golygu mwy o weithgarwch ar gyfer holl allfeydd cyfathrebu, gan gynnwys sgriniau cyfryngau, e-bost hysbysfyrdau swp-lythyru a dulliau eraill.

Cytunwyd y bydd y nifer o fannau parcio rhannu car a glustnodir yn unol â'r nifer o bobl sy'n rhannu ceir. Gobeithir y bydd hanner maes parcio blaen Llandaf ar gyfer ceir rhannu cyn diwedd y flwyddyn nesaf.

Bydd UWIC yn lansio cynllun beicio i'r gwaith y llywodraeth ym mis Mai, gyda dyddiad casglu beicio ym mis Mehefin. Yn dilyn diddordeb mawr gan staff, atgyfnerthir y lansiad drwy gymryd rhan yn Bike Week. Bydd staff sy'n beicio i'r gwaith yr wythnos honno yn cael brecwast 5 eitem a diod boeth o 14 Mehefin 2008 am wythnos.

Mae'r car rhyng-gampws tanwydd deuol yn cael ei ddefnyddio'n aml nawr, ac mae UWIC yn y broses o ailosod un o'r bysiau mini gyda cherbyd gwell i'r amgylchedd.

## CMC



Mae'n bleser gan Gyngor Caerdydd groesawi Canolfan Mileniwm Cymru, ei gweithwyr a gweithwyr y sefydliadau preswyl i RhannuCeirCaerdydd. Mae CMC yn gartref i 7 sefydliad diwylliannol Mae'r rhain yn cynnwys Academi, Diversions, Hijinx Theatre, TouchTrust, Tŷ Cerdd, Urdd Gobaith Cymru ac Opera Genedlaethol

Cymru. Fe allwch chi gael rhagor o wybodaeth am CMC a'i sefydliadau o [www.wmc.org.uk](http://www.wmc.org.uk)

## Newyddion Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru



Asiantaeth yr  
Amgylchedd Cymru  
Environment  
Agency Wales

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn edrych i wella'r mynediad i'w Swyddfeydd yn Llaneirwg ac maent yn gobeithio adeiladu ystafell gawod ar gyfer y rhai sy'n teithio'n actif i'r safle.

## Newyddion Cyngor Caerdydd



Mae cyfleuster Parcio a Theithio yn Llanrhymini wedi cael caniatâd cynllunio i adeiladu ar ochr ddwyreiniol y ddinas. Bydd y Parcio a Theithio yn darparu 1088 o fannau parcio ac fe fydd y bysus yn gallu defnyddio lonydd bysus. Y cynllun arfaethedig

yw i'r bysus adael bob 10 munud i fynd â chymudwyr a siopwyr i ganol y ddinas. Mae'r Cyngor yn chwilio am opsiynau i ddefnyddio'r safle ar gyfer parcio a rhannu, beicio a theithio yn ogystal â pharcio a theithio.

Bydd y cynllun parcio a theithio yn helpu cyrraedd y targed o ostwng nwyon tŷ gwydr yn y ddinas a gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy. Y bwriad yw cwblhau'r cynllun a'i fod yn agored i'r cyhoedd yn 2009.

### Paratoi at y Gwanwyn

Os ydych yn bwriadu tynnu'ch beic o'i aeafgwsq cyn hir, efallai ei bod hi'n bryd gwneud cwrs adfywio.

Mae Canolfan Ddiogelwch Ffordd Caerdydd yn cynnig dosbarthiadau i oedolion a phlant.

Mae dosbarthiadau gwyliau yn dysgu pobl ifanc sut i feicio'n ddiogel yn rhedeg rhwng 10am a 12pm rhwng 21 a 25 Gorffennaf a 28 Gorffennaf i 1 Awst a 4 a 8 Awst.

Gall oedolion gofrestru ar un o'r cyrsiau undydd sy'n ceisio datblygu sgiliau beicio, gan gynnwys crefft y ffordd a beicio ymarferol a sgiliau cynnal a chadw.

Mae prynhawn ar Lwybr y Taf yn rhan o'r cwrs. Mae'r dosbarthiadau hyn yn addas ar gyfer y rheini nad ydynt wedi beicio ers peth amser ond sy'n awyddus i deithio ar feic neu seiclo

gyda'u plant. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y cyrsiau hyn trwy gysylltu â'r Ganolfan diogelwch ar y ffyrdd (manylion ar dudalen olaf y cylchlythyr).

### Newid Dulliau Teithio - Rhannu tacsï:

Os nad ydych am gerdded, beicio na defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gallwch ddarganfod rhywun i rannu siwrnai tacsï â nhw. Efallai nod oes gennych gar neu drwydded yrru, neu efallai eich bod yn byw mewn ardal heb drafnidiaeth gyhoeddus dda. Efallai nad ydych chi am yrru i'r gwaith!! Cofiwch fod y cynllun rhannu siwrnai yn caniatáu paru pobl ar gyfer siwrneiau tacsï. Cofiwch dicio'r blwch cywir yn y ddewislen.

### Ewch ar y bws neu'r trê:

Mae Trafnidiaeth Gyhoeddus yn ffordd wych o fynd i'r gwaith i nifer o bobl. Mae pob taith ar drên neu fws yn cynnwys peth cerdded, ac os oes gennych feic sy'n plygu, gallwch ei gario gyda chi fel petai'n fag. Does dim angen cadw lle – hyd yn oed ar amserau prysur.

Gallwch ddarganfod mwy am siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus trwy gysylltu â'r darparwyr yn uniongyrchol neu trwy ymweld â [www.TravelineCymru.org.uk](http://www.TravelineCymru.org.uk).

### Cwblhewch yr Arolwg Blynnyddol Rhannu Siwrnai!

Bob gwanwyn mae'r gweinyddwr rhannu siwrnai yn anfon arolwg byr allan i ddarganfod sut a pham mae ein haelodau yn teithio. Rydym eisiau gwybod hefyd a ydych o'r farn y dylem wella ein safle rhannu siwrnai a'r cyfleusterau sydd ar gael i chi. Byddai yn ein helpu ni pe baech yn cwblhau'r arolwg hwn a gellir cael mynediad ato o dudalen flaen gwefan rhannu siwrnai, neu trwy ddilyn: [www.carshare2cardiff.com/x.jsp;jsessionid=41123FAD6313F46413DC8E197245CB3B?ano=199](http://www.carshare2cardiff.com/x.jsp;jsessionid=41123FAD6313F46413DC8E197245CB3B?ano=199)

Neu fe allwch brintio copi a'i ddychwelyd yn y post i: Tîm Polisi Trafnidiaeth Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW.

#### Mae gen i ddiddordeb hefyd mewn dod o hyd i gyd-deithwyr ar gyfer...

- cerdded
- beicio
- bws neu drên
- hannu tacsï



Ticiwch y blwch sy'n dynodi'r dull teithio yr hoffech chi ei rannu!

**Byw llai na 2 filltir  
o'r gwaith?**



**Beth am gerdded â chydweithiwr?**



**Nid ar gyfer Rhanwyr Ceir yn unig!**

I gael rhagor o wybodaeth neu i gofrestru ar gyfer Rhanu Ceir ewch i,  
[www.rhannuceircaerdydd.com](http://www.rhannuceircaerdydd.com)  
neu ewch i'r ddolen ar dudalen wybodaeth y Mewnwyd.



Gallwch gyfarfod cyfaill Cerdded i'r Gwaith trwy'r cynllun rhannu siwrnai...

Cofiwch, os ydych yn cerdded yn fywiog am 30 munud bob dydd byddwch ar eich ffordd i ffordd o fyw mwy iach. Gellir rhannu'r 30 munud hyn yn 3 x 10 munud neu 2 x 15 munud – sydd yr un mor effeithiol. ([www.wv2h.org.uk](http://www.wv2h.org.uk))

Pam na wnewch chi barcio deng munud oddi wrth y gwaith a cherdded am ddeng munud yn eich awr ginio?

'...mae cerdded (yn fywiog neu beidio) yn gallu effeithio ar iechyd unigolion trwy roi cyfle iddyn nhw gymdeithasu (mae rhwydweithiau cymdeithasol da) a thynnu i fwrdd o straen dyddiol (mae straen niweidiol i iechyd).'

[www.whi.org.uk](http://www.whi.org.uk)

## GWYBODAETH DDEFNYDDIOL:

Gwybodaeth Diogelwch y Ffyrdd: [www.roadsafety.cardiff.gov.uk](http://www.roadsafety.cardiff.gov.uk)

### Cwmnïau Teithio Uniongyrchol:

Bws Caerdydd: [www.cardiffbus.com](http://www.cardiffbus.com)

Trenau Arriva: [www.arrivatrainswales.co.uk](http://www.arrivatrainswales.co.uk)

Rhwydwaith Rheilffordd Cenedlaethol: [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk)

(ffôn. 08457 48 49 50)

### Cynllunio Teithio:

Traveline Cymru: [www.traveline-cymru.org.uk](http://www.traveline-cymru.org.uk) (ffôn. 0871 200 22 33)

### Ffynhonellau Eraill:

Dolenni Teithio y BBC : [www.bbc.co.uk/wales/southeast/travel](http://www.bbc.co.uk/wales/southeast/travel)

Gwybodaeth am Gynlluniau Teithio:

Gwefan: [www.caerdydd.gov.uk/cynlluniateithio](http://www.caerdydd.gov.uk/cynlluniateithio) - e-bost: [cynlluniateithio@caerdydd.gov.uk](mailto:cynlluniateithio@caerdydd.gov.uk)

Gwybodaeth am Strategaeth Drafnidiaeth y Cyngor:

[www.keepingcardiffmoving.co.uk](http://www.keepingcardiffmoving.co.uk)